3.63

# CAROL PLYGAIN,

*Ar "Mentra Gwen."*

---

AR gyfer heddyw 'r bore',
'N faban bach, yn faban bach,
Y ganwyd gwreiddyn Jesse,
'N faban bach;
Y Cadarn ddaeth o Bosra,
Y Deddfwr gynt ar Sina,
Y iawn gaed ar Galfaria,
Yn faban bach, yn faban bach,
Yn sugno bron Marëia, 'n faban bach.

Caed bywiol ddwfr Eseciel,
Ar lin Mair, ar lin Mair,
A gwir Feseia Daniel,
Ar lin Mair;
Caed bachgen doeth Esaia,
'R addewid ro'ed i Adda,
Yr Alpha a'r Omega,
Ar lin Mair, ar lin Mair;
Mewn côr yn Methl'em Juda,
Ar lin Mair.

Gorffwyswch bellach, Lefiaid,
Cafwyd iawn, cafwyd iawn,
Nid rhaid wrth anifeiliaid,
Cafwyd iawn;
Diflanu a wnaeth y cysgod,
Mae'r sylwedd wedi dyfod,
Nid rhaid wrth ŵyn na bychod,
Cafwyd iawn, cafwyd iawn,

X205209237

Na theirw na thurturod,
Cafwyd iawn.

Ystyriwn gariad Trindod,
O'u gwirfodd, o'u gwir fodd,
Yn trefnu ffordd cymmod,
O'u gwirfodd ;
Y Tad yn ethol meichiau,
Y Mab yn foddlon diodde',
A'r Ysbryd Glan ei ddoniau,
O'u gwir fodd, o'u gwir fodd,
Yn tywys Sion adre',
O'u gwir fodd.

Diosgodd Crist ei Goron,
O'i wir fodd, o'i wir fodd,
Er mwyn coroni Sion,
O'i wir fodd;
I blygu ei ben dihalog
O dan y goron ddreiniog,
I ddioddef dirmyg llidiog,
O'i wir fodd, o'i wir fodd,
Er codi pen yr euog,
O'i wir fodd.

O cofiwn Gethsemane,
Lle bu ef, lle bu ef,
Yn chwysu'r gwaed yn ddagrau,
Lle bu ef ;
Ac am y fflangell greulon
Yn arddu cefn y Cyfion,
Ar hyd heolydd Sion,
Lle bu ef, lle bu ef,
A'i gnawd yn gwysi hirion,
Lle bu ef.

Hawdd olrhain ei gerddediad,
Hyd y llys, hyd y llys,
Gan lwybr coch orlifiad,
Hyd y llys;
Lle cafodd Iesu cyfion
Ei watwor gan elynion,
A tharo 'i wyneb tirion,
Yn y llys, yn y llys,
Er dirmyg ar ei berson,
Yn y llys.

O'r llys at orsedd Pilat,
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Taenellwyd gwaed ein Ceidwad,
Er ein mwyn;
Lle bu y Duw anfeidrol
Yn goddef barn angeuol,
Gan ei greadur meidrol,
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Yn fud fel caeth troseddol,
Er ein mwyn.

O daccw'r Oen mewn dalfa,
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Yn esgyn pen Calfaria,
Er ein mwyn,
I ddioddef dwyfol loesion,
Ar bren y groes rhwng lladron,
Y biccell fain a'r hoelion,
Er ein mwyn, er ein mwyn,
A cholli gwaed ei galon,
Er ein mwyn.

Gorweddodd yn y beddrod,
Er ein mwyn, er ein mwyn,

I dynu'r damp o'i waelod,
Er ein mwyn;
Yn awr mae ar ei orsedd
Yn cynyg rhâd drugaredd,
Maddeuant a thangnefedd,
Er ein mwyn, er ein mwyn,
I'r adyn mwyaf ffiaidd,
Er ein mwyn.

Cyfiawnder a foddlonwyd,
Waith ei iawn, waith ei iawn;
A'r ddeddf a anrhydeddwyd,
Waith ei iawn;
Mae uffern fawr yn crynu,
A'r ddurtur bêr yn canu,
A Duw a dyn yn gwenu,
Waith ei iawn, waith ei iawn,
Mewn hedd y'mherson Iesu,
Waith ei iawn.

Am hyn, bechadur, brysia,
Fel yr wyt, fel yr wyt,
I 'mofyn am y noddfa,
Fel yr wyt;
I ti 'r agorwyd ffynon,
A ylch dy glwyfau duon,
Fel eira gwyn yn Salmon,
Fel yr wyt,
Gan hyny tyr'd yn brydlon,
Fel yr wyt.

---

J. JONES, ARGRAFFYDD, LLANRWST.